

2018 Rhif (Cy. )

2018 No. (W. )

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Stryd y Castell a Heol Eryri,  
Penrhyndeudraeth, Gwynedd)  
(Gwahardd Aros) 2018

The A487 Trunk Road (Castle  
Street and Eryri Terrace,  
Penrhyndeudraeth, Gwynedd)  
(Prohibition of Waiting) Order  
2018

Gwnaed 17 Gorffennaf 2018

Made 17 July 2018

Yn dod i rym 20 Gorffennaf 2018

Coming into force 20 July 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Stryd y Castell a Heol Eryri, Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Gwahardd Aros) 2018 a daw i rym ar 20 Gorffennaf 2018.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Castle Street and Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth, Gwynedd) (Prohibition of Waiting) Order 2018 and it comes into force on 20 July 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

"disabled person's badge" ("*bathodyn person anabl*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

"parking disc" ("*disg parcio*") has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3);

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.

(3) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

(3) S.I. 2000/1785 (W.122).

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

### Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Esemptiadau

4.—(1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:
  - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd a/neu'r gilfan; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(4);
- (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y gefnffordd neu'n gyfagos iddi;
- (f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;

(4) 2003 p.21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p.30).

“the relevant position” (“*y safle perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road.

### Prohibition of Waiting at Any Time

3. Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Exemptions

4.—(1) Nothing in article 3 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable:

- (a) a person to board or alight from a vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;
- (c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
  - (i) building, industrial or demolition operations;
  - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
  - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road; or
  - (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of trunk road lay-by of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(4);
- (d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the trunk road;
- (f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes;

(4) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

- (g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
  - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
  - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
  - (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Gorffennaf 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd y Castell, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â phen dwyreiniol Adwy Ddu hyd at bwynt 74 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Heol Eryri, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â phen dwyreiniol Adwy Ddu hyd at bwynt 69 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd y Castell/Heol Eryri, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Fro Llewelyn hyd at bwynt 87 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

- (g) the vehicle to stop when the person in control of it:
- (i) is required by law to stop;
  - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
  - (iii) is prevented from proceeding; or
  - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) Nothing in article 3 renders it unlawful to cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 July 2018

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

## SCHEDULE

The length of the southern side of the trunk road known as Castle Street, Penrhyndeudraeth that extends from a point 20 metres east of the centrepoint of its junction with the eastern end of Adwy Ddu to a point 74 metres east of the centrepoint of that junction.

The length of the southern side of the trunk road known as Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth that extends from a point 10 metres west of the centrepoint of its junction with the eastern end of Adwy Ddu to a point 69 metres west of the centrepoint of that junction.

The length of the northern side of the trunk road known as Castle Street/Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth that extends from a point 5 metres east of the centrepoint of its junction with the road leading to Bro Llewelyn to a point 87 metres east of the centrepoint of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487  
(STRYD Y CASTELL A HEOL ERYRI,  
PENRHYNDEUDRAETH, GWYNEDD)  
(GWAHARDD AROS) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 20 Gorffennaf 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar unrhyw adeg ar y darnau o gefnffordd yr A487 o'r enw Stryd y Castell a Heol Eryri, Penrhyndeudraeth a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn, ar unrhyw ddiwrnod. Gwneir esempiad ar gyfer deiliaid bathodyn anabled.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 18 Gorffennaf 2018 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau swyddfa arferol yn Siop Dewi, 14 Stryd Fawr, Penrhyndeudraeth LL48 6BN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1314403.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 17 Gorffennaf 2018, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynon, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (CASTLE STREET  
AND ERYRI TERRACE,  
PENRHYNDEUDRAETH, GWYNEDD)  
(PROHIBITION OF WAITING) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 20 July 2018.

The effect of the Order is to prohibit waiting at any time on any day on the lengths of the A487 trunk road known as Castle Street and Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth described in the Schedule to this Notice. An exemption will be made for disabled badge holders.

During a period of 6 weeks from 18 July 2018, a copy of the Order and plan may be inspected during normal opening hours at Siop Dewi, 14 High Street, Penrhyndeudraeth LL48 6BN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1314403.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- c. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- d. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 17 July 2018, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd y Castell, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â phen dwyreiniol Adwy Ddu hyd at bwynt 74 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Heol Eryri, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â phen dwyreiniol Adwy Ddu hyd at bwynt 69 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd y Castell/Heol Eryri, Penrhyndeudraeth sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Fro Llewelyn hyd at bwynt 87 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## SCHEDULE

The length of the southern side of the trunk road known as Castle Street, Penrhyndeudraeth that extends from a point 20 metres east of the centrepoint of its junction with the eastern end of Adwy Ddu to a point 74 metres east of the centrepoint of that junction.

The length of the southern side of the trunk road known as Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth that extends from a point 10 metres west of the centrepoint of its junction with the eastern end of Adwy Ddu to a point 69 metres west of the centrepoint of that junction.

The length of the northern side of the trunk road known as Castle Street/Eryri Terrace, Penrhyndeudraeth that extends from a point 5 metres east of the centrepoint of its junction with the road leading to Bro Llewelyn to a point 87 metres east of the centrepoint of that junction.